# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2022 – 2023
# CYNGOR CYMUNED CILYMAENLLWYD

## 1. Cyflwyniad

Yn dilyn gweithredu Deddf Llywodraeth Leol a Democratiaeth (Cymru) 2021, mae'n ofynnol i gynghorau cymuned, ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, baratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol am flaenoriaethau, gweithgareddau a chyflawniadau'r cyngor yn ystod y flwyddyn honno. Mae'r adroddiad blynyddol hwn felly yn adrodd ar weithgaredd Cyngor Cymuned Cilymaenllwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2022-23.

## 2. Y Cyngor

Cynhelwyd etholiadau Llywodraeth Leol a Chynghorau Tref a Chymuned ar 5ed Mai 2022 a chafodd y canlynol eu hethol yn Gynghorwyr Cymuned yn ddiwrthwynebiad tan yr etholiad nesaf ym Mai 2027:

**Cilymaenllwyd (Ward y De)**

Mr Russell Davies
Mr Anthony Eynon
Mr Gareth Griffiths
Mr Geraint James
Mr Dennis Jones
Mr Tudur Lewis

**Cilymaenllwyd (Ward y Gogledd)**

Mr Anthony Jenner
Mr Vivian Williams

Yn Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022, sicrhaodd y Cynghorydd Dorian Phillips ei sedd ar Ward Llanboidy, sy'n cynnwys Cilymaenllwyd, fel Cynghorydd Sir dros Blaid Cymru. Mynychodd y Cynghorydd Dorian Phillips gyfarfodydd cyngor cymuned yn rheolaidd yn ystod 2022-23, gan ddarparu diweddariadau ar faterion fel atgyweirio ffyrdd; ailagor trac rheilffordd y Cardi Bach fel llwybr troed; diweddariadau ynghylch y Cynllun Datblygu Lleol a materion yn ymwneud â chynllunio, a threfniadau casglu gwastraff.

Gwelwyd ychydig o newid yn aelodaeth y Cyngor yn 2022-23 gyda'r Cynghorydd Leslie Owen a'r Cynghorydd Geraint James yn ymddiswyddo ar ôl blynyddoedd o wasanaeth a'r Cynghorydd Vivian Williams yn cyhoeddi y byddai e'n ymddiswyddo ddiwedd y flwyddyn, hefyd ar ôl blynyddoedd o wasanaeth. Trist yw adrodd am farwolaeth y Cynghorydd Gareth Griffiths ym mis Gorffennaf. O ganlyniad, cafodd Mrs Rebecca Jaimangal-Jones ei chyfethol yn Gynghorydd ym mis Gorffennaf. Cafodd Mr Michael Fussell, Mr Julian Williams a Dr Ffion John eu cyfethol ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Yn ogystal â'r newidiadau yma, penodwyd Clerc/Swyddog Ariannol Cyfrifol newydd, Mrs Janice Morgan, ym mis Mai 2022, yn dilyn ymddiswyddiad Mrs Anwen Phillips, ar ôl 12 mlynedd o wasanaeth. Hoffai'r Cyngor ddiolch yn fawr i'r Cynghorwyr a'r Clerc blaenorol am eu hymroddiad at waith y Cyngor er lles y gymuned .

Y Cynghorydd Anthony Jenner oedd y Cadeirydd yn ystod 2022-23, yn dilyn y Cynghorydd Dennis Jones, a'r Is-gadeirydd oedd y Cynghorydd Tudur Lewis. Cynhaliwyd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 31 Mai 2022 a'r cyfarfodydd eraill yn ôl yr amserlen, cyfanswm o chwech cyfarfod i gyd, ar Nos Fawrth olaf bob deufis, a hynny wyneb yn wyneb, yng Nghaffi Beca, ar ôl bod arlein yn ystod Covid-19. Roedd presenoldeb ym mhob cyfarfod yn ystod 2022-23 yn dda iawn.

## 3. Gweithgareddau a Chyflawniadau'r Cyngor yn 2022-23

Parhaodd gwaith y Cyngor i ganolbwyntio ar gefnogi a gwella'r gymuned fel a nodir isod.

- **Llwybrau Troed Cyhoeddus**

Yn dilyn cyfarwyddyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin i gynghorau cymuned ailagor rai o lwybrau troed cyhoeddus o fewn eu cymunedau fel rhan o'r agenda cynnal a chadw mannau agored i gyfoethogi'r gymuned leol a gwella iechyd a lles y gymuned, cynhelwyd cyfarfod cyhoeddus ym mis Medi yng Nghaffi Beca. Daeth dros 50 o drigolion ynghyd i drafod y llwybrau troed o fewn y gymuned a chawsant gyfle i nodi'r llwybrau yr oeddent yn dymuno eu hailagor yn ardaloedd Efailwen, Hebron, Cwmiles a Login. Ers y cyfarfod hwn, mae grŵp o wirfoddolwyr yn ardal Login wedi dod ynghyd, ac ar ôl trafod a chytuno â'r perchnogion tir, maent wedi mynd ati i agor mwy na 2000 metr o lwybrau troed a'u gwneud yn fwy hygyrch yn yr ardal honno.

I gynorthwyo gwaith clirio rhai o'r llwybrau cyhoeddus, cyflwynodd y Cyngor gais gwerth £57,362, yn dwyn y teitl 'Adfer Llwybr Troed Cilymaenllwyd', ar gyfer grant Cymunedau Cynaliadwy o dan Gronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig ddiwedd mis Mawrth 2022. Os bydd y cais yn llwyddiannus, y bwriad yw clirio'r llwybrau troed yn nyffryn Afon Wenallt. Disgwylir clywed yn gynnar yn y flwyddyn ariannol nesaf 2023-24.

- **Adnewyddu Paneli Gwybodaeth**

Adnewyddwyd dau banel gwybodaeth, un ar safle hanesyddol Meinir Gŵyr yng Nglandy Cross a'r llall ar safle picnic Ynys Fach. Byddant yn cael eu gosod ddechrau'r haf. Fe wnaeth y Cyngor Sir gytuno i wneud gwaith cynnal a chadw yn y safle picnic er mwyn ei wneud yn lle mwy deniadol a phleserus i bobl leol ac ymwelwyr. Bydd y paneli gwybodaeth hyn yn cyfrannu at greu mwy o ddiddordeb ymhlith trigolion ac ymwelwyr â'r ardal.

- **Diffibriliwr i Ardal Ffynnonwen**

Bu'r cais a wnaed i Achub Bywyd Cymru am ddiffibriliwr mynediad cyhoeddus ar ran Canolfan Gymunedol Ffynnonwen yn llwyddiannus. Bydd y diffibriliwr yn cael ei osod cyn gynted â phosib yn 2023/24.

- **Gwefan**

Cytunwyd bod angen i'r Cyngor ddatblygu gwefan i gydfynd â'r dudalen Facebook. Ar ôl derbyn sawl dyfynbris, cytunwyd rhoi'r gwaith o ddatblygu gwefan y cyngor

cymuned i ddatblygwr gwe lleol, sef Jamie King Media. Gobeithir y bydd y wefan yn barod erbyn Haf 2023 a fydd yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol. Bydd hyn yn golygu y bydd gwybodaeth am waith y Cyngor a dogfennau allweddol eraill yn fwy hygyrch i bawb. Bydd yn ffordd hwylus o wella ymgysylltiad cymunedol a hyrwyddo datblygiad cymunedol a gweithgareddau cymdeithasol.

Fe wnaeth y Cyngor Cymuned hefyd ymateb i'r ymgynghoriadau canlynol:

- Newidiadau Llywodraeth Cymru i leihau'r cyfyngiadau cyflymder presennol o 30mya i 20mya mewn ardaloedd â golau stryd ar ffyrdd cyfyngedig ledled Cymru. Mae ffyrdd cyfyngedig yn cynnwys lle mae goleuadau stryd yn cael eu gosod dim mwy na 200 llath oddi wrth ei gilydd a'u lleoli mewn ardaloedd preswyl ac adeiledig lle mae llawer o gerddwyr. Bwriedir i'r newidiadau hyn ddigwydd ym mis Medi 2023. Bydd nifer o gyfyngiadau cyflymder yn cael eu cyflwyno yn Efailwen, Glandy Cross, Pantycaws a bydd y Cyngor Cymuned yn gweithio gyda Chyngor Sir Caerfyrddin i weithredu'r newidiadau hyn yn unol â'r gofynion.

- Ail Gynllun Datblygu Lleol Adneuo Cyngor Sir Caerfyrddin – cynllun datblygu tai newydd a fforddiadwy ar gyfer y sir am y 10 mlynedd nesaf yw hwn. Cyflwynodd cynghorwyr ymateb ynglŷn â'r ddau safle arfaethedig yng Nglandy Cross ac un safle arfaethedig yn Efailwen ar gyfer datblygu tai newydd.

- Adolygiad Cymunedol Cyngor Sir Caerfyrddin 2023 a'r cynnig i ddad-wardio Cyngor Cymuned Cilymaenllwyd h.y. bod Ward y De a Ward y Gogledd yng Nghilymaenllwyd yn dod yn un ward. Cytunodd y Cyngor â'r cynnig hwn, gan gredu bod y cyngor cymuned yn un gymuned gyfan ac y byddai'n gwneud pob ardal yn gynhwysol.

## 4. Cyllideb

Mae gweithgareddau cynghorau cymuned yn cael eu hariannu drwy'r Dreth Cyngor. Mae pob cyngor cymuned yn penderfynu faint i'w godi i dalu am ei wariant er budd y gymuned, sef y praesept. Yn 2022-23 cyfanswm y praesept oedd £7,000, fel y flwyddyn flaenorol. Cyfanswm balansau a chronfeydd wrth gefn a ddygwyd ymlaen ar ddechrau'r flwyddyn fel y'u cofnodwyd yn y cofnodion ariannol oedd £9703. Cyfanswm a chronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn oedd £11459 sydd ychydig yn fwy na'r flwyddyn flaenorol. Yr hyn sydd i gyfrif am hyn yw y gwnaed fwy o daliadau yn y flwyddyn flaenorol nag a wnaed yn 2022/23. Hawliwyd fwy o TAW yn 2022/23; disgwyliwyd fod wedi talu am ddablygu'r wefan ond nid oedd yn barod, felly bydd y taliadau hyn yn cael eu cynnwys yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Roedd gwariant Cyngor Cymuned Cilymaenllwyd yn bennaf fel a ganlyn:

- rhoddion ariannol i grwpiau lleol fel Canolfan Gymunedol Ffynnonwen; Cylch Meithrin Ffynnonwen; cyfraniad tuag at blac anrhydeddu cyfraniad Mr a Mrs Roy a Rhoswen Llewelyn yn y gymuned
- torri cloddiau
- cyflog y Clerc
- costau goleuadau troedffordd a thaliadau etholiad 2022
- yswiriant atebolrwydd

- tanysgrifiad i Un Llais Cymru

Bydd dadansoddiad llawn o'r gwariant ar gyfer y flwyddyn ariannol hon 2022-2023 ar gael yn y Cyfrifon Blynyddol ar ôl eu cymeradwyo.

Cyhoeddodd y cyngor ei gyfrifon ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-2022 yn unol â gofynion Archwilio Cymru mewn dau leoliad cyhoeddus – un ar hysbysfwrdd Siop Glandy Cross a'r llall ar hysbysfwrdd Canolfan Gymunedol Ffynnonwen a hefyd ar ei dudalen Facebook. Roedd y cyfrifon hyn yn amodol ar Archwiliad Mewnol gan berson proffesiynol penodedig a hefyd Archwiliad Allanol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## 5. Taliadau

O'r 9fed Mai 2022 dylai pob Cynghorydd dderbyn £150 o dan ofynion Adran 147 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Bydd y taliad hwn yn codi i £156 o Ebrill 2023 oherwydd y cynnydd mewn costau byw. Oherwydd y trosglwyddo i glerc newydd, collwyd golwg ar y mater tâl hwn, felly nid yw'r taliadau hyn wedi cael eu gwneud hyd yn hyn. Rhoddir sylw i hyn ar ddechrau 2023-24 ac adroddir arno mewn 'Datganiad o Daliadau'.

## 6. Edrych ymlaen i 2023-24

Gan edrych ymlaen i'r flwyddyn sydd i ddod, bydd Cyngor Cymuned Cilymaenllwyd yn adolygu ac yn diweddaru ei ddogfennau a'i bolisïau allweddol yn y flwyddyn ariannol nesaf 2023-24, yn unol â rheoliadau newydd diweddar, i gynnwys:

- datblygu cynllun hyfforddiant pedair blynedd (2023-27) ar gyfer Cynghorwyr a'r Clerc a fydd yn cynnwys cymryd rhan ym modiwlau hyfforddi Un Llais Cymru. Bydd hyn yn sicrhau bod pob Cynghorydd a'r Clerc yn gwbl ymwybodol o brosesau a chyfrifoldebau'r unigolion a'r Cyngor
- diwygio ei Reolau Sefydlog yn unol â chanllawiau newydd Un Llais Cymru
- datblygu polisi bioamrywiaeth a chynllun gweithredu ar gyfer y gymuned

er mwyn sicrhau bod y cyngor yn gweithredu'n effeithiol ac yn effeithlon, yn ymateb ac yn diwallu anghenion a dymuniadau trigolion Cilymaenllwyd.

30ain Mai 2023

Arwyddwyd gan Gadeirydd 2022-23: ........................................

Arwyddwyd gan y Clerc: ........................................ 6/6/2023.